

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 86

Key Language

Ers talwm/ers meitin
Mutating <ch>
Rhyfedd/doniol
Gwaith (m)/gwaith (f)

New Words

Hedfan	to fly
Deugain	forty
Yr un pryd	the same time
Ar hyn o bryd	at the moment
Dewr	brave
Annibynnol	independent
Balch	proud
Holi	to enquire
Bodlon	willing
Pwyntio	to point
Damwain	accident
Rhagor	more
Menig	gloves
Plentynaid	childish
Gwrthod	to refuse
Call	sane
Cuddio	to hide
Isel	low
Gwirion	silly
Ar fy llw	on my honour
Ar fy marw	on my life (lit: death)
Porthor	porter
Cadw draw	to keep away
Bihafio	to behave
Dychryn	to be afraid
Llwybr	path
Eiliad	a second (of time)
Yn barod	already
Gweiddi	to shout
Gwylanod	seagulls
Mewn tipyn o dwill	in a bit of bother (lit: a hole)
Yli	look
Dwyn	to steal
Anffodus	unfortunate
Llithrig	slippery
Ffafr	favour
Achub dy groen	save your own skin
Dadlau	to argue
Croesi	to cross; to annoy
Gollwng	to let go

Chris broke into Jenny's car and scared the living daylights out of her. She ended up calling the police. He's completely deluded and thinks that she may still be interested in going on a date.

*Chris - I just thought you might like to go to the Light of Asia again...
Jenny - Allan! Cer allan o nghar i rwan! Y funud hon!*

Main Grammatical Points

We recently learnt that ers means since or for.

This week we hear the terms:

“Ers meitin”/“ers talwm”, which both mean “for a while” or “for ages”

But note the differences between them.

“Ers meitin” means for ages when you’re referring to the same day.

“Ers talwm” means for ages when you’re referring to any time in the past which is longer than a day ago.

Here are 2 scenarios to help you:

At 9am Sioned tells Mair that she’s going shopping but won’t be long. By 2pm Sioned is still not back from the shops and Mair hasn’t seen her since. So Mair could say:

Dw i ddim wedi gweld Sioned ers meitin
I haven’t seen Sioned for ages

Gruffydd goes travelling round the world for a year. He leaves in January. So by June, his best friends could say:

Dydyn ni ddim wedi gweld Gruffydd ers talwm.
We haven’t seen Gruffydd for ages.

You might also hear the form ers sbel – for a spell of time. And you could use this for the meaning of ers meitin as well as ers talwm.

You might have noticed already, but we just love mutating in Welsh! In fact we love it so much that we even bother with loan words which begin with ‘ch’, like checio (to check) which we would mutate to jecio.

We hear Chris saying:

Chi moyn i mi jecio ble mae fe?
Do you want me to check where he is?

He’s felt the need to mutate after the preposition ‘i’ of course, even though he needn’t really have bothered!!

Another example might be cargo (to charge)

Ga’i jargio fy ffon yma?
Can I charge my phone here?

If you find yourselves mutating the sound ‘ch’ naturally, you’ll know you’ve cracked mutations at last!!

You’ve probably heard the English expressions ‘funny peculiar’ and ‘funny ha-ha’ when people try to clarify what funny means. Well, in Welsh we have different words to clarify which funny we mean:

“Rhyfedd” means funny peculiar
and
“Doniol” means funny ha-ha.

Dyna ryfedd!
That’s funny! Or That’s odd!

but

Mae jôcs Elwyn mor ddoniol
Elwyn’s jokes are so funny.

Look out for the word ‘digri’ - it also means funny ha-ha.

Gender is very important in Welsh as it can change the meaning of a word. Remember that gwaith when it means work is a masculine noun:

Es i i’r gwaith bore ‘ma

But gwaith when it means time is feminine:

Es i i’r gwaith ddwy waith wythnos diwethaf.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 256

Agnes and Chris get chatting about Jac at the garage. It all seems very innocent but it looks like Agnes has unwittingly planted an idea in Chris' head...

Geirfa

Hedfan	to fly
Deugain	forty
Yr un pryd	the same time
Ar hyn o bryd	at the moment
Dewr	brave
Annibynnol	independent
Balch	proud
Holi	to enquire
Bodlon	willing
Pwyntio	to point
Damwain	accident

Golygfa 1

Chris - Hi.

Agnes - Bore da....

Chris - Prynawn da, actually.

Agnes - Ydy hi?

Chris - Afraid so.

Agnes - Mae amser yn hedfan mor gyflym weithiau. Pwmp chwech. Deugain punt ar ei ben, dw i'n credu...

Chris - Spot on. Pump chwech. Pedwar deg punt exactly.

Agnes - 'Co chi... fy ngharden i.

Chris - Diolch.

Agnes - Ble mae Brian ynte?

Chris - Yn y cefn, dw i'n credu. Sa i wedi ei weld e ers meitin...Ydych chi moyn i fi jecio ble mae fe?

Agnes - Na. Peidwch ...

Chris - Ydych chi'n siwr? Gallaf i jecio dim problem...

Agnes - Na. Does dim rhaid i chi...wir.

Chris - So...yyyy...Sut mae Jac?

Agnes - Mae Jac yn O.K.

Chris - Wnewch chi...? Sorry, can't say it in Welsh...Will you put your pin number in here?

Agnes - A chroeso.

Chris - Diolch.

Actually, come to think of it...Sa i wedi gweld Jac ers talwm...

Agnes - Wel, mae fe'n mynd mas o'r tŷ mwy nag oedd e...

Chris - Ydy e?

Agnes - Ydy...Mas i siopa gyda fi...Mas i'r pwll nofio...Mas i'r Yacht Club weithiau..

Chris - Sa i wedi gweld Jac yn yr Yacht Club...

Agnes - Efallai eich bod chi'ch dau ddim wedi bod yna yr un pryd.

Chris - Efallai. Yeah. I'm not a regular by a long shot...

Agnes - Mae Jac yn hoffi mynd i'r Yacht Club amser cinio fel arfer.

Chris - O, reit.

Agnes - Benny yw'r chef newydd yna – wel, cogydd dan hyfforddiant. Mae Jac yn hoff iawn o'r bwyd yna ar hyn o bryd.

Chris - Mae'n rhaid bod pethau'n anodd iddo fe...I'd be a mess. I know I would.

Agnes - Mae fe'n ddewr iawn. Y peth pwysicaf yw bod Jac yn mynd mas ar ei ben ei hun...Mae'n bwysig ei fod e'n dysgu sut i fod yn annibynnol.

Chris - I take it that means independent?

Agnes - Ie. Annibynnol...

Chris - Ydy. Dw i'n cytuno. Mae hi'n bwysig iawn bod yn annibynnol...

Agnes - Dyna pam dw i mor falch bod Jac yn mynd mas o'r tŷ. Mae fe'n mynd am dro yn y gadair olwyn bob prynhawn...

Chris - Your card back. And your receipt.

Agnes - Diolch. Wel, well i mi fynd.

Chris - OK. Hwyl.

Brian - Agnes oedd honna ynte?

Chris - Beth?

Brian - Wnes i glywed llais Agnes yma jest rwan?

Chris - Aye, do. Agnes oedd yna.

Brian - Oedd o hefo hi?

Chris - Jac, wyt ti'n ei feddwl?

Brian - Ie. Jac. Wel, oedd o? Oedd Jac hefo hi?

Chris - Nag oedd. Ddim yn garej. Ond efallai ei fod e yn y car tu fas – the car's on the forecourt, by pump six...

Hey, tell me what's bugging you, man...

Brian - Pam wyt ti'n holi? Rwy'ti'n gwybod yn iawn.

Chris - Why torment yourself?

Brian - Wel, mae'n anodd peidio.

Chris - Beth wyt ti ei angen yw resolution. Resolve your situation. And I don't mean, divorce. I mean something else. Something that I know you've thought about very long and very hard... Rwy'ti'n gwybod beth dw i'n ei feddwl.

Brian - Ydw. Dw i'n gwybod beth wyt ti'n ei feddwl.

Chris - Ychydig o wythnosau yn ôl...Sa i'n cofio pryd yn iawn...wnest ti ofyn i fi fydden i'n fodlon dy helpu di...Wyt ti'n cofio?

Brian - Ydw. Mmmm-hmmm.

Chris - Wyt ti? Wyt ti'n cofio gofyn i fi dy helpu di?

Brian - Ydw, dw i'n cofio...

Chris - Wyt ti eisiau gwybod sut i ladd Jac Whelan? Coz it's easy. A fydd neb yn gallu pwyntio bys atat ti - byth...

Brian - Sut fedraf i ladd Jac Whelan heb gael neb yn pwyntio bys ataf i?

Chris - Achos dw i'n cast-iron alibi i ti. So, go ahead and do it. Make your dreams come true, man...

Brian - Wyt ti'n siwr?

Chris - Listen, here's a tip on how. Dywedodd Agnes jest nawr fod Jac yn mynd mas o'r tŷ bob prynhawn...He takes an afternoon stroll in his wheelchair all by himself....

Brian - Beth wyt ti'n ei awgrymu? Fy mod i'n ei ddilyn o?

Chris - Your house faces the sea doesn't it? Cliffs and all that. And accidents do happen. Especially on slippery slopes. Especially for a guy in a wheelchair with just one leg... Tragic...

Brian - A damwain ydy damwain.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 257

It seems that Chris can't help following Jenny...

Agnes is concerned about Jac when he opens up and tells her how low he's been feeling.

Geirfa

Rhagor	more
Menig	gloves
Plentynaidd	childish
Gwrthod	to refuse
Call	sane
Cuddio	to hide
Isel	low
Gwirion	silly
Ar fy llw	on my honour
Ar fy marw	on my life (lit: death)
Porthor	porter
Cadw draw	to keep away
Bihafio	to behave
Dychryn	to be afraid

Golygfa 1

Agnes - Rhagor o de?

Jac - Na, na. Ddim i fi. Dw i'n iawn. Beth sydd ar fy feddwl di?

Agnes - Dw i jest yn meddwl am faint o waith sydd gyda fi yn yr ysbyty prynhawn yma.

Jac - Fel beth?

Agnes - O, cant a mil o bethau... (*yn bwyta*) Beth wyt ti'n mynd i'w wneud prynhawn yma ynte?

Jac - Dwn i ddim eto. Mae gen i DVD...

Agnes - DVD? Fyddai fe ddim yn well i ti fynd mas o'r tŷ? Byddai cael tipyn bach o awyr iach yn gwneud byd o les i ti.

Jac - Ie, rwyd ti'n iawn.

Agnes - Dw i'n gwybod fy mod i'n iawn.

Jac - Yr unig beth ydy...

Agnes - Beth?

Jac - Na, na. Dim byd...

Agnes - Beth? Dywed wrthyf i. Mae rhywbeth yn dy boeni di...

Jac - Jest...wel, dyma fi'n mynd allan brynawn ddoe...ac ar ôl rhyw hanner awr, roedd hi mor oer...fy mysedd i – all my fingers... they just froze...I could hardly get the wheels moving...Took me ages to get back...

Agnes - Gwisga dy fenig di ynte. Sawl gwaith ydw i wedi dweud wrthyf ti am wisgo menig?

Jac - Ie, ie. Dw i'n gwybod...

Agnes - Mis Mawrth yw hi cofia. Nage mis Mehefin. Dylet ti wisgo menig – paid â bod yn blentynaidd nawr...Rwyd ti'n waeth na Rhodri a Beca!

Jac - Wyt ti'n gwybod...weithiau...

Agnes - Ie?

Jac - Na...na. Sori. No Does dim ots...

Agnes - Beth, Jac? Dywed...

Jac - Dw i ddim eisiau dy boeni di...

Agnes - Os wyt ti'n gwrthod dweud wrthyf i, byddaf i yn poeni...Nawr dywed beth sy'n dy fecso di..

Jac - Mae hyn mor anodd i'w ddweud...achos dw i eisiau i ti wybod fy mod i'n trio bod yn bositif...right?

Trio bod yn gryf...Ond weithiau, dw i jest yn teimlo bod dim pwynt i hyn – i'r ffordd dw i'n byw o gwbl – wyt ti'n gwybod...? Weithiau dw i ddim yn gweld y pwynt o fod yn fyw. Yn eistedd yn y gadair olwyn yma fel hyn... A dweud y gwir, heblaw amdanat ti – ti, Agnes ydy'r unig beth sy'n fy nghadw fi'n gall...ie? Hebddot ti...Hebddot ti yn fy mywyd i, dw i ddim yn meddwl buaswn i'n dal yn fyw...

Agnes - Jac. Cariad...

Jac - Sori.
 Agnes - Does dim rhaid i ti fod yn sori...
 Jac - Dw i wedi trio cuddio sut dw i wir yn teimlo...
 Agnes - Does dim rhaid i ti. Mae'n well dy fod ti'n siarad yn hollol onest...
 Jac - Dw i'n teimlo mor isel weithiau, Agnes...Mor ofnadwy o isel...Mae'n anodd disgrifio'r peth yn iawn rywsut...
 Agnes - Mae'n naturiol i deimlo'n isel weithiau...Paid â becco.
 Jac - Dw i'n hollol useless...
 Agnes - Nag wyt ddim...
 Jac - Agnes! Edrycha arnaf i..
 Agnes - Jac –
 Jac - Beth ydw i'n ei wneud? Hei? Beth fedraf i ei wneud?
 Agnes - Lot fawr o bethau...Alli di wneud lot fawr o bethau...
 Jac - Hei! Edrycha ar yr amser... Mae'n hen bryd i ti fynd i'r gwaith, ie?. I wneud y cant a mil o bethau yna!
 Agnes - Ie, sbo. Wyt ti'n siwr dy fod ti'n O.K.?
 Jac - Nac ydw. Dw i ddim yn O.K. Ond paid â phoeni – dw i ddim yn mynd i wneud dim byd...gwirion.
 Agnes - Wyt ti'n addo?
 Jac - Gaddo.
 Agnes - Ar dy lw?
 Jac - Ar fy marw.

Golygfa 2

Jenny - ...Helo?...Helo?
 Chris - Hi.
 Jenny - Ah...
 Chris - Don't panic...
 Jenny - Chris...
 Chris - Don't scream or anything...
 Jenny - Dw i newydd weld porthor yr ysbyty. Allaf i alw arno fo.
 Chris - C'mon Jen – it's only me.
 Jenny - Ar ôl y tro diwethaf...Ar ôl i ti dorri i mewn i fy nghar i... Wnaeth yr heddlu ddweud wrthyf i i'w ffonio nhw - unrhywbryd. Allaf i wneud hynny nawr wyt ti'n gwybod?
 Chris - Hei, hei. Calm down...
 Jenny - Ac wyt ti'n cofio beth wnaeth yr heddlu ddweud wrthyf ti hefyd?
 Chris - Ydw.
 Jenny - Wel, beth?
 Chris - If you dropped the charge of breaking and entering into your car that I'd promise not to come near you.
 Jenny - Yn union. So, pam wyt ti yma rwan?
 Chris - Dw i'n gwybod. I'm a bad boy. Ond Jenny...Jen, plis...
 Jenny - Cadw draw! Dw i ddim yn mynd i ofyn i ti eto!
 Chris - Dw i jest moyn dweud 'sori.'
 Jenny - Sori?
 Chris - 'Bytu'r ffordd dw i wedi bihafio...'Bytu popeth...Doeddwn i ddim moyn rhoi ofn i ti. Honest.
 Jenny - Wel – mi wnest ti godi ofn arnaf i.
 Chris - Fi yw'r person diwethaf i drïo dy ddychryn di. Rhaid i ti fy nghredu fi.
 Jenny - Iawn. Ond jest cadwa allan o fy ffordd i. Wyt ti'n clywed?
 Chris - Ydw. Loud and clear.
 Jenny - Da iawn. Rwan, gad i mi fynd heibio.
 Chris - Tan y tro nesaf ... bitch.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 258

Brian and Jac finally come face-to-face on the cliff top... but will Brian have the guts to get rid of Jac once and for all?

Geirfa

Llwybr	path
Eiliad	a second (of time)
Yn barod	already
Gweiddi	to shout
Gwylanod	seagulls
Mewn tipyn o dwll	in a bit of bother (lit: a hole)
Yli	look
Dwyn	to steal
Anffodus	unfortunate
Llithrig	slippery
Ffafr	favour
Achub dy groen	save your own skin
Dadlau	to argue
Croesi	to cross; to annoy
Gollwng	to let go

Golygfa 1

Brian - Wyt ti'n siwr?

Chris - Aye. Tair gwaith yr wythnos yma.

Brian - Tair gwaith yr wythnos yma, mae Jac wedi dod ar hyd y llwybr yma?

Chris - Do. Y llwybr yma. Rhwng dau a thri o'r gloch bob prynhawn...

Brian - A dim ond Jac? Jac ar ei ben ei hun.

Chris - Dim ond Jac. Neb arall. Tair gwaith. (*saib fer*) And lo and behold... Edrycha... Draw fan 'co... Here he comes again today, huffing and puffing and panting... Pathetic. (*saib fer*) Beth sydd,

Brian? Change of heart?

Brian - Wrth gwrs ddim.

Chris - Beth ynte?

Brian - Dim byd. Jest cau dy geg!

Chris - Dyma dy gyfle di. This is it. Un push i'r gadair olwyn dros yr ochr yna. A bingo! Mae Jac Whelan yn goner. Hey, he's coming closer by the second, man. It's make your mind up time. It's now or never...

Brian - Jest cau dy geg am eiliad, wnei di? Edrycha... Jest dos di... Reit? Jest dos!

Chris - Wyt ti'n siwr?

Brian - Ydw. Dos.

Chris - O.K. Wel, see you back at the car. But get it over and done with ASAP. Hei - pob lwc mate...

Brian - Ie... Prynhawn da Jac...

Jac - Brian. So... At last... I was wondering when we'd 'bump' into each other like this...

Brian - Ie, Jac... Dyma ni. O'r diwedd...

Jac - Hei, well i ti wisgo menig, Brian. Dwyt ti ddim eisiau gadael fingerprints...

Brian - Dyma nhw. Yn fy mhoced i'n barod, edrycha...

Jac - So. Dw i'n helpless then?

Brian - Wyt.

Jac - Os dw i'n gweiddi – fydd neb yn clywed.

Brian - Neb ond y gwylanod.

Ti mewn tipyn o dwll, yn dwyt ti Jac?

Jac - It's finally come to this. After everything we've been through over the years. Mind you, never had you down for the sadistic, cruel type though. Always thought that if push came to shove you'd be a bit of a marshmallow sort of guy... Dwyt ti ddim yn cytuno, mate?

Brian - Mêt? Dwyt ti ddim yn fêt i mi...

Jac - Rwyd ti'n dal yn ffrind i fi, Brian.

Brian - Na. Fedri di a fi ddim bod yn fêts ac yn ffrindiau byth eto. Ddim ar ôl beth wyt ti wedi ei wneud i mi...

Jac - Takes two to tango, mate. It takes two to tango. Wyt ti'n fy nghlywed i?

Brian - Yli, wnest ti ddwyn Agnes. Fi sydd biau Agnes, a wnest ti ei dwyn hi.

Jac - So. Rwyd ti am fy lladd i? Problem solved. O bosibl. Doubtful though. Agnes will hate you even more.

Brian - Damwain anffodus fydd hi...

Jac - In your dreams, pal...

Brian - Wwww, Jac, bydda'n ofalus. Mae'r llwybr yma'n llithrig. Yn ofnadwy o lithrig.

Jac - Iawn. Come on. Go ahead...

Brian - Sut fedri di fod mor...blasé?

Jac - Achos dw i wedi meddwl lladd fy hun fwy nag unwaith mate. Rwyd ti'n gweld, Brian – mewn ffordd ryfedd, rwyd ti'n gwneud ffafr fawr i fi. You really are.

Brian - Bluff.

Jac - Nage Brian. Dw i ddim yn blyffio. Dw i o ddifrif. Dw i ddim eisiau byw ddim mwy. I love Agnes more than anything in the world, but I can't stand the way I am. I thought I could cope. But I can't. So. Come on. Go ahead...

Brian - Bluff.

Jac - Ddim o gwbl, Brian...

Brian - Dw i'n dy adnabod di'n iawn, Whelan. A dw i'n gwybod dy fod ti'n fodlon gwneud rhywbeth i achub dy groen dy hun.

Jac - Brian, dw i wedi newid.

Brian - Dydy boi fel chdi byth yn newid...

Jac - Dw i ddim eisiau dadla, Brian. Come on. Let's get it over with...

Brian - O'r gorau...

Jac - You've got to laugh, though. Hey? Ti a fi. To come to this. The end of a beautiful relationship...

Brian - Dy ddiwedd di, Jac.

Jac - A chdi, Brian bach. You'll be doing a very long stint for murder.

Brian - Mae gen i alibi...

Jac - Wel, wel. All thought out. Pre-meditated... Hmmm...Mae'n dipyn o drop, hey Brian? Edrycha...

Brian - Ydy – mae hi...

Brian - Taset ti ddim wedi fy nghroesi fi...Taset ti ddim wedi dwyn Agnes – fuaswn i byth yn gwneud hyn...

Jac - You just don't get it do you? Cariad, Brian. Mae Agnes mewn cariad efo fi. A dydy Agnes ddim mewn cariad efo ti.

Brian - Dydy hi ddim yn dy garu di!

Jac - Ydy, mae hi! A ti'n gwobod be arall? Ti sy'n mynd dros yr ochr! Ti sy'n mynd dros yr ochr....Do you think I'd let a little shit like you do me in...!

Brian - Gollwng fi...! Gollwng fi...!

Jac - Not until you're well and truly over, mate!

Synopsis

Chris hasn't let a phone call to the police stop him from stalking Jenny.

Agnes gets chatting to Chris about Jac at the garage and plants an idea in his head. He manages to persuade Brian to bump conveniently into Jac on the clifftop and get his revenge...

Test yourself

- Which of the following is the correct way to say 'three times' in Welsh?
 - Tri gwaith
 - Tair gweithiau
 - Tair gwaith**
- It's 7pm. Carys left the house at 2pm. You haven't seen her...
 - ers talwm
 - ers meitin**
 - ers y canol oesoedd
- The last time you saw your 'mam-bedydd' (god-mother) was in 'Tachwedd' (November) three years ago. You haven't seen her...
 - ers talwm**
 - ers meitin
 - ers y canol oesoedd
- How odd could be translated in to Welsh as:
 - Dyna ryfedd!**
 - Dyna ddoniol!
 - Dyna ddigrif!
- Which of these words can **not** be used to mean funny-ha-ha?
 - rhyfedd**
 - doniol
 - digrif
- 'The work's too hard' in Welsh is:
 - Mae'r gweithfeydd yn rhy anodd
 - Mae'r waith yn rhy anodd
 - Mae'r gwaith yn rhy anodd**